

Thema: Gwrthdaro

Mae'r thema hon yn ymwneud â gwrthdaro, ac mae'n awgrymu dulliau o archwilio natur gwrthdaro cyn canolbwyntio ar ddwy astudiaeth.

Mae'r gweithgareddau a'r astudiaethau a ddewiswyd yn adlewyrchu gwaith y prosiect a mynediad i wybodaeth a deunydd. Cynlluniwyd yr adran hon fel y gallwch ddefnyddio'r astudiaethau neu gymhwysu'r cysyniadau a'r broses i'ch deunydd astudiaeth eich hun. Yn wir, gobeithiwn y bydd llawer o'r syniadau a'r gweithgareddau yn gweddu gyda'ch cyrsiau cyfredol.

Gellid defnyddio'r syniadau a gyflwynir yma gan dîm o athrawon sy'n cynrychioli nifer o bynciau dyniaethau gwahanol, neu gan athrawon o un ddisgyblaeth sy'n dymuno mabwysiadu ymagweddiad mwy hyblyg. Ymdriniaeth draws-gwricwlaidd oedd yr un a ddewiswyd yma. Pa ymdriniaeth bynnag a ddewiswch, hyderwn y bydd yr uned hon yn eich tanio gyda deunydd a syniadau. Nid y bwriad yw eich bod yn dilyn ein syniadau ni yn ddeddfol, ond eich bod yn dethol a dewis y gweithgareddau sydd fwyaf addas ar gyfer eich cynllun gwaith chi.

Nod

- i gynyddu ymwybyddiaeth o achosion, effeithiau, ymarferion a sialens gwrthdaro drwy astudiaethau o sefyllfaoedd personol, lleol a rhyngwladol.
- i gynnig cyfleoedd i astudio gwrthdaro gan ddefnyddio amrywiaeth eang o adnoddau er mwyn ffurfio barn wybodus.

Amcanion

- i adnabod mwy nag un achos o wrthdaro
- i fod yn ymwybodol fod gwrthdaro yn effeithio ar lawer o bobl mewn gwahanol ffyrdd
- i dethol ffynonellau perthnasol i'r ymchwiliad
- i ofyn cwestiynau addas o'r ffynonellau
- i wneud ymchwil personol ar bwnc penodol
- i ddefnyddio mwy nag un ffynhonnell i ddod i gasgliad
- i ysgrifennu llythyr yn holi am wybodaeth
- i weithio fel aelod o dîm.

Crochan gwrthdaro


Defnyddiwch ddeunydd megis yr un ar y dudalen nesaf fel sbardun i fyfyrwyr ystyried eu dealltwriaeth o achosion ac effeithiau gwrthdaro. Gall hyn amrywio o wrthdaro ymysg eu cyfoedion i sefyllfaoedd rhyngwladol o wrthdaro. Gofynnwch i'r myfyrwyr enwi gwahanol fathau o sefyllfaoedd gwrthdaro. Yna dylent ethol dau a gwneud y gweithgarwch dilynol:

Gan ddefnyddio copi o'r dudalen nesaf, dylent ysgrifennu y ddau fath o wrthdaro ar y crochan ei hunain. Ar bob darn o goed tân, dylech ofyn iddynt ysgrifennu yr hyn a ystyrient hwy yw achosion gwrthdaro. Yna, dylent ysgrifennu yr effeithiau yn y cymylau o fwg uwchben y crochan. Dylent rannu hyn gyda gweddiill y dosbarth.

Mae'r astudiaethau yn yr adran hon yn ymwneud â

- profi gwrthdrawiad [sut mae'n dod i fod] gan edrych ar ddarn allan o 'Traed mewn Cyffion' Kate Roberts a defnyddio'r ynys ffug a phrofiad y myfyrwyr eu hunain
- trafod gwrthdaro mewn cymuned wledig yng Nghymru
- gwrthdaro yn y gymuned leol, gan ganolbwyntio ar 'linell heddwch' Belfast.
- gwrthdaro mewn cyd-destun rhyngwladol, gan ganolbwyntio ar wrthdaro yn Nwyrain Timor a sut mae buddiannau rhyngwladol yn effeithio ar hyn.

Crochan Gwrthdaro



Profi gwrthdaro [sut mae gwrthdaro yn dod i fod]

Cafodd y nofelydd Cymraeg enwog Kate Roberts brofiad personol o ganlyniad gwrthdaro - lladdwyd ei brawd yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Yn ei nofel Traed mewn Cyffion, mae'n dangos mor ddideimlad oedd yr awdurdodau tuag at deuluoedd y milwyr cyffredin.

RHYFEL

O *Traed Mewn Cyffion*, Kate Roberts.

Un o brif gymeriadau'r nofel yw Jane Gruffydd, mam Twm sy'n filwr yn Ffrainc yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.

'Y bore hwnnw, yn nechrau Gorffennaf 1916, disgwyliai Jane Gruffydd lythyr oddi wrth Twm. Ni chawsai'r un ers chwe diwrnod. Yr oedd yn bryderus iawn, ond nid yn or-bryderus, oblegid buasai'n hir fel hyn o'r blaen, a chafodd ddau lythyr gyda'i gilydd y pryd hwnnw. Y dyddiau yma ni fedrai wneud dim ond godro a hwylio Eric i'r ysgol cyn i'r postmon ddyfod, ac weithiau byddai hwnnw'n hwyr. Y diwrnod yma yr oedd felly, neu fe aethai heibio. Eto daliai i eistedd yn lle codi a dechrau ar ei gwaith. Na; dyna ei bib wrth lidiart y llwybr, a rhedodd hithau'n falch. Ond nid llythyr oddi wrth Twm ydoedd, nac oddi wrth yr un o'r plant eraill, ond llythyr hir a marc y llywodraeth arno.

"Drap," meddai wrthi ei hun, "dyma ryw hen gwestiynau eisiau eu hateb eto. Maen' nhw fel tasa gin rywun ffarm o fil o aceri."

Ond wedi ei agor, canfu nad un o'r cyfryw bapurau ydoedd. Rhyw bapurau Saesneg oedd y rhai hyn. Gwelodd enw Twm a'i rif yn y fyddin, ac yr oedd papur gwyn arall tew a dim ond tamaid bach ar hwnnw yn Saesneg.

Rhedodd â'r llythyr i'r siop.

"Rhyw hen lythyr Saesneg wedi dwad acw, Rhisiart Huws. Fasach chi ddim yn dweud beth ydi o? Rhywbeth ynghylch Twm ydi o, beth bynnag."

Darllenodd y siopwr ef, a daliodd ef yn ei law sbel.

"Steddych i lawr, Jane Gruffydd," meddai'n dyner.

"Be sy?" meddai hithau. "Does dim wedi digwydd?"

"Oes, mae arna i ofn," meddai yntau.

"Ydi o'n fyw?"

"Nag ydi, mae arna i ofn. Ann," gwaeddai o'r siop i'r gegin, "dowch â llymaid o ddŵr, mewn munud."

"Dowch trwodd i'r gegin, Jane Gruffydd," meddai hithau, a gafaelodd yn ei braich.

Yn ddiweddarach aeth i'r Ffridd Felen.

Gweithiai lfan ar y pryd am ychydig ddyddiau yn y cynhaeaf gwair yn un o'r ffermydd heb fod yn bell, lle y dechreuid ar y cynhaeaf yn gynt nag yn y Foel Arian. Pan welodd ddyn yn croesi'r cae i chwilio amdano, fe wyddai yntau paham y gelwid ef adref.

Cyrhaeddodd y plant adref i gyd cyn y nos. Daeth cymdogion yno; fe wnaethant eu gwaith. Dangosasant bob caredigrwydd. A'r noson honno, wedi cau'r drws ar yr olaf ohonynt, yswatiai'r plant a'u rhieni at ei gilydd wrth y tân, gan deimlo mai felly oedd orau iddynt fod ar noson y gwnaed y bwlich cyntaf yn y teulu.

Wrth roi ei phen ar y gobennydd, a cheisio cau ei llygaid ar boen, daeth ugeiniau o feddyliau trist i feddwl y fam. Ond yn eu plith fe wibiodd un meddwl arall, na buasai'n rhaid iddi ofni clywed sŵn y postmon drannoeth.'

tt. 175-77

Meddai Kate Roberts am Jane Gruffydd yn ddiweddarach,

'Dioddefiasant gamwri ac anghyfiawnder yn y chwareli; gormes ffafriaeth a llwgr-wobrwyo. Gwelsant ladd eu cyfeillion a'u plant wrth eu gwaith, ond ni welsant erioed fyned â'u plant oddi wrthynt i'w lladd mewn rhyfel' (tud 173)

Yn y diwedd, mae'r cyfan yn profi'n ormod iddi, a daw pethau i'r pen pan ddaw y swyddog pensiynau milwrol i'w chartref, i ostwng yr arian ddaw i'r tŷ wedi i Twm gael ei ladd.

'Y munud hwnnw daeth rhyw deimlad rhyfedd dros Jane Gruffydd. Ers pymtheg mis o amser, bu rhyw deimladau yn crynhoi yn ei henaid yn erbyn pob dim oedd yn gyfrifol – am y Rhyfel, yn erbyn dynion ac yn erbyn Duw; a phan welodd y dyn blonegog yma yn ei ddiillad graenus yn gorfoleddu am dynnu pensiwn gwraig weddw dlawd i lawr, methodd ganddi dda. Yr oedd fel casgliad yn torri, y dyn yma oedd y tu ôl i'r Rhyfel ar y munud hwnnw, a dyma hi'n cipio'r peth nesaf i law - brws dillad oedd hwnnw - a tharo'r swyddog yn ei ben.

"Cerwch allan o'r tŷ yma, mewn munud," meddai, ac yr oedd yn dda ganddo yntau ddiplannu.

"Fy hogyn bach i," dolefa'i, "a rhyw hen beth fel yna'n cael byw."

A thorrodd hi ac Owen i weiddi crio.

tt. 186-7.

Profi gwrthdaro [sut mae gwrthdaro yn dod i fod]

G O R O E S I

'Goroesi'

Mae'r gêm ddynwared 'Goroesi' wedi ei chynllunio i ganiatau myfyrwyr i gael profiad o sefyllfa o wrthdaro.

Byddant angen copiau o fap Ynys Atgas a cherdyn cyfarwyddo (**tud.31**), gyda phecyn o gardiau sefyllfa (**tud.32**).

Rhannwch y dosbarth yn dri.

Cam 1

- mae pob grŵp i'w rhannu'n dri is-grŵp - ffermwyr, pobl yr anialwch a phobl y mynydd.
- caiff pob un o'r rhain fap o Ynys Atgas a cherdyn cyfarwyddo. Maent yn cwblhau'r gweithgarwch ar y cerdyn.
- rhoddir iddynt y cerdyn gwybodaeth perthnasol am eu grŵp [1A, 1B neu 1C]
- mae pob un yn trafod manteision ac anfanteision byw ar y fan lle y maent ar yr ynys
- yn dilyn hyn, mae pob is-grŵp yn cyflwyno eu casgliadau o'r drafodaeth i'r grŵp llawn.

Cam 2

- rhoddir yr holl grwpiau ffermio gyda'i gilydd, pobl yr anialwch gyda'i gilydd a phobl y mynydd.
- rhoddir cerdyn Newyddion Brys iddynt a gwybodaeth gan yr ysbïwyr [2A, 2B neu 2C]
- maent yn penderfynu ar y strategaeth y maent am ei mabywsiadu mewn perthynas â'r ddau grŵp arall ar yr ynys.

Cam 3

- mae'r tri grŵp gwreiddiol yn dod at ei gilydd.
- mae pob is-grŵp - mynydd, anialwch a ffermio, yn awr yn egluro i'r gweddill:
 1. tarddiad y gwrthdaro fel y maent hwy yn deall y sefyllfa
 2. y wybodaeth a gawsant gan eu hysbiwyr
 3. y strategaeth a fabwysiadwyd i ddatrys y sefyllfa

Cam 4

Yn awr, gofynnwch


- sut oeddynt yn teimlo yn ystod y gwahanol gamau o'r gêm?
- beth a ddysgodd y gêm iddynt am natur gwrthdaro?

Ynys Atgas - cerdyn gwybodaeth

Bydd pob grŵp yn cymryd rhan un o'r bobloedd sy'n trigo ar Ynys Atgas

- 1] Pobl yr anialwch
- 2] Pobl y mynydd
- 3] Y ffermwyr

- Edrychwch ar y map.
- Trafodwch y manteision a'r anfanteision o fyw ar eich tiriogaeth eich hun. Ym mha diriogaeth y carech chi fyw, a phaham?
- Wedi i chwi wneud hyn, gofynnwch am gerdyn gwybodaeth am eich tiriogaeth eich hun - fe'i cewch ar y dudalen nesaf.



Newyddion Brys!

Mae sychder wedi taro Ynys Atgas. Mae dŵr yn adnodd mwy gwerthfawr nag erioed. Byddech yn disgwyl i bobl y mynydd gael digonedd o ddŵr ond, mewn gwirionedd, mae eu hafonydd yn sychu.

Beth mae eich pobl chi am wneud i sicrhau nad yw'r sychder yn effeithio'n ddifrifol arnynt hwy?



Cerdyn 1A Ffermwyr

Pobl gyfoethog ydych chi sy'n ffermio'r tir a gyda mwy na digon o fwyd. Mae gennych ddŵr, ond mae'n llifo o'r mynyddoedd. Mae gennych ffatrioedd sy'n prosesu'r bwyd. Olew sydd yn rhedeg y rhain, ac ni allant weithio gyda'r un tanwydd arall.

Yr ydych yn rhannu Ynys Atgas gyda dau dylwyth arall o bobl - pobl y mynydd a phobl yr anialwch. Yr ydych wedi cyd-fyw â hwy'n heddychlon am flynyddoedd lawer. Yr ydych wedi masnachu'n broffidiol gyda hwy. Ar ba grŵp yr ydych yn dibynnu fwyaf?

Cerdyn 2A Ffermwyr

Mae eich ysbïwyr yn rhoi gwybod i chi fod pobl y mynydd am osod argae ar Afon Wylt fydd yn lleihau eich cyflenwad dŵr hanfodol.

Trafodwch yr effaith gaiff hyn arnoch. Sut ydych chi am oroesi'r problem?



Cerdyn 1B Pobl y Mynydd

Pobl grwydrol ydych sy'n byw ar y mynyddoedd. Yr ydych yn cadw llawer o anifeiliaid ac mae gennych ddigonedd o ddŵr ar eu cyfer. Fodd bynnag, tir gwael sydd gennych ac ni allwch dyfu digon o fwyd ar gyfer eich anghenion.

Yr ydych yn rhannu Ynys Atgas gyda dau dylwyth arall o bobl - y ffermwyr a phobl yr anialwch. Yr ydych wedi cyd-fyw â hwy'n heddychlon am flynyddoedd lawer. Yr ydych wedi masnachu'n broffidiol gyda hwy. Ar ba grŵp yr ydych yn dibynnu fwyaf?

Cerdyn 2B Pobl y Mynydd

Mae eich ysbïwyr yn rhoi gwybod i chi am y si fod y ffermwyr a phobl yr anialwch wedi ffurfio clymblaid yn eich erbyn a'u bod am oresgyn eich gwlad a dwyn eich dŵr.

Trafodwch sut y gall hyn effeithio arnoch. Sut fyddech chi'n delio â'r bygythiad?



Cerdyn 1C Pobl yr Anialwch

Chi yw pobl yr anialwch. Ychydig iawn o ddŵr sydd gennych ac o ganlyniad, ychydig iawn o anifeiliaid sydd gennych. Nid ydych yn tyfu nemor ddim bwyd. Fodd bynnag, mae olew yn eich tir, a rydych yn cyfnewid hwn am bethau yr ydych eu hangen.

Yr ydych yn rhannu Ynys Atgas gyda dau dylwyth o bobl, pobl y mynydd a'r ffermwyr. Yr ydych wedi cyd-fyw â hwy'n heddychlon am flynyddoedd lawer. Yr ydych wedi masnachu'n broffidiol gyda hwy. Ar ba grŵp yr ydych yn dibynnu fwyaf?

Cerdyn 2C Pobl yr Anialwch

Mae arolwg daearyddol wedi datgelu fod llyn tanddaearol mawr ar eich tir. Trafodwch sut mae hyn yn effeithio arnoch. Sut all hyn effeithio ar eich perthynas gyda phobloedd eraill Ynys Atgas ar yr amser hwn o sychder?




Rhestr Gwirio

Rhai cwestiynau y gellir eu codi wrth ddarllen astudiaethau ynglŷn â gwrthdaro:

- pa grwpiau sy'n rhan o'r gwrthdaro?
- beth sy'n digwydd?
- beth yw'r achosion tymor hir?
- beth yw'r achosion tymor byr?
- sut brofiad fyddai bod yno?
- sut mae'r gwahanol grwpiau yn teimlo?
- oes yna ffordd i ddatrys yr anghydfod?
- sut ydych chi'n teimlo ynglŷn â'r sefyllfa?

Diagram i ddangos llif achos ac effaith



Sut mae gwrthdaro yn effeithio pobl a digwyddiadau eraill? Dyma enghraifft o ddiagram llif o sefyllfa o wrthdaro. Gan ddefnyddio camau yn y diagram, ysgrifennwch sgrïpt fyddai yn darlunio'r gwrthdaro hwn.

Meddyliwch am enghraifft o wrthdaro yr ydych chi wedi bod yn rhan ohono'n ddiweddar a chynlluniwch ddiagram tebyg i ddangos yr effaith a gafodd hyn.

Gwrthdaro mewn cymuned

Gwylwch ffilm Uned Gwaith Ieuenctid Creadigol Theatr Felinfach - 'HAMBÔNS'

Mae'r ffilm yn ymwneud â'r tensiwn a gyfyd mewn cymuned wledig yng Ngorllewin Cymru lle mae cymysgedd o bobl leol a mewnfudwyr.

Yn y stori, y mae bachgen o Sais 17 oed, Josh, yn symud gyda'i rieni o Lundain i fyw yng Ngorllewin Cymru. Stori o sut y mae ef yn dod i delerau gyda'i gymuned newydd ydyw, a sut mae'r plant yn yr ysgol yn ei dderbyn ef.

Yn yr ysgol, mae rhaniad yn y chweched dosbarth rhwng y plant Cymraeg a'r plant Saesneg. At y plant sy'n siarad Saesneg yr aiff Josh yn gyntaf, ond yna mae'n cael ei ddenu gan Lora, sy'n rhan o'r criw Cymraeg. Pan fo'r criw Cymraeg yn paratoi sioe, maent angen gitarydd ac mae Lora yn perswadio Josh i ddod gyda'i gitar ef i helpu. Wrth i Lora a Josh glosio, mae hyn yn ennyn ymateb gan y ddau griw ac mae'r ddau yn canfod fod eu criw yn troi eu cefnau arnynt. Mae teuluoedd y ddau yn wrthwynebus i'r garwriaeth hefyd.

Trafodwch gyda'r dosbarth beth sydd wrth wraidd y gwrthdaro hwn.

- A yw gwahanu i grwpiau ar sail iaith yn gyffredin yn eich ysgol chi?
- A oes gwahanu ar sail ffactor arall - crefydd neu hil?
- Gyda phwy y mae eich cydymdeimlad chi?
- Beth ellid ei wneud i ennyn dealltwriaeth well rhwng y ddau grŵp?
- Mae'r teitl Hambôns yn derm dilornus a ddefnyddir gan y rhai sy'n siarad Saesneg i ddisgrifio'r grŵp Cymraeg. Pa dermau a ddefnyddir yn eich ysgol chi?

Nid yng Nghymru yn unig mae tyndra fel hyn yn bodoli. Mae'n digwydd dros y byd i gyd. Mae'n digwydd yn aml pan fo grŵp o bobl yn ymarfer grym dros bobl nad ydynt yn arddel y grym hwnnw. Mae'r grŵp cryf yn esgeuluso hawliau'r grŵp arall, ac mae anghyfiawnder yn codi o hyn.

Yn y ffilm, pan aeth pethau yn ddrwg iawn, trodd y bobl ifanc i ddefnyddio eu dyrnau, gan ymarfer grym corfforol. Ar lefel llawer mwy difrifol, dyma beth yw rhyfel - un grŵp yn ymarfer grym corfforol a milwrol dros grŵp arall.

Yn y Pumdegau, bu rhyfel yn Korea, pan ymosododd Americanwyr ar Ogledd Korea gyda'r esgus mai Comiwnyddion oeddynt. Poenodd hyn gymaint ar y bardd Waldo Williams fel yr ymataliodd rhag talu ei drethi ac fe'i cymerwyd i'r carchar. Er iddo ymatal rhag barddoni am gyfnod, y mae llawer o farddoniaeth orau Waldo yn erbyn rhyfel.

Pa werth na thry yn wawd
Pan laddo dyn ei frawd?

Brawdoliaeth

Beth yw trefnu teyrnas? Crefft
Sydd eto'n cropian.
A'i harfogi? Rhoi'r cyllyll
Yn llaw'r baban.

Pa Beth yw Dyn?

I Waldo, dyna oedd rhyfel - rhoi cyllyll yn nwylo baban. Peth cwbl anghyfrifol, di-ystyr a pheryglus.

Trefnwch ddadl dosbarth ar y pwnc "Nid yw byth yn iawn i ddefnyddio grym arfau" gyda dau yn siarad o blaid y gosodiad a dau yn erbyn.

Gwrthdaro mewn cymuned

Enghraifft o wrthdaro sydd wedi parhau am amser maith yw'r sefyllfa yn y Chwe Sir yn Iwerddon. Arferai Iwerddon fod yn wlad rydd, ond ym **1801**, cafwyd **Deddf Uno**, a daeth Iwerddon dan lywodraeth Prydain. Ers hynny, mae Iwerddon wedi ceisio torri'n rhydd oddi wrth Brydain. Ym 1916, cafwyd gwrthryfel gwaedlyd, a rhyfel cartref i ddilyn lle chwaraeodd yr IRA (Irish Republican Army) le amlwg.

Y cyfaddawd i ddatrys yr anghydfod hwn oedd **Cytundeb Eingl-Wyddelig** a drefnwyd gan Lloyd George ym 1921. Cafodd 26 o siroedd Iwerddon eu creu yn Weriniaeth, ac arhosodd 6 sir yn y gogledd ddwyrain dan lywodraeth Prydain. Dyma'r rhan a adwaenir fel 'Gogledd Iwerddon'.

O 1969 ymlaen, bu rhyfel arfog rhwng yr IRA, Byddin Prydain a charfannau'r Protestaniaid a lladdwyd 3,000 o bobl a phlant, y mwyafrif yn bobl gyffredin. Er bod yr ymladd drosodd ers y Cytundeb Heddwch yn 1998, y mae tyndra o hyd rhwng y ddwy gymuned.

Pabyddion o ran crefydd yn mwyafrif pobl Gweriniaeth Iwerddon a Phrotostaniaid yw'r mwyafrif yng Ngogledd Iwerddon. Oherwydd hyn, gwelir yr ymrafael yng Ngogledd Iwerddon fel u n crefyddol.

Mae mwyafrif pobl Belfast, y brifddinas, yn byw tu allan i ardal y ghetto. Mae mwyafrif y Pabyddion yn byw o fewn ardal eang y ghetto sy'n ymestyn ar hyd yr M1 o Derriaghy yn y de tuag at Canol Dinas Belfast yn y gogledd ddwyrain. Mae'r Llinell Heddwch yn gwahanu Gorllewin Belfast Babyddol (Falls/ Andersonstown ac ati) oddi wrth Orllewin Belfast Brotestanaidd. Mae'r Llinell Heddwch yn ymestyn o waelodion Mynyddoedd y Divis i'r West Link wrth ganol y ddinas.

Gwrandewch ar y gân '*Gorllewin Belfast*' gan Steve Eaves.

Ydych chi'n cytuno gyda'r syniad o Linell Heddwch?

Mae unrhyw fath o rwystr yn dangos llwyddiant gwrthdaro rhwng cymunedau a methiant i fyw mewn cytfordd.

Gellir dweud beth yw tueddiadau gwleidyddol person o wybod ei gyfeiriad. Mae plant yn mynd i ysgolion gwahanol, ac yn y cymunedau Pabyddol, ymdrechir i ddysgu yr iaith Wyddeleg.

Ym 1969 y codwyd y Llinell Heddwch wedi i 600 o dai gael eu malurio wedi trais rhwng y cymunedau. Mae llinellau heddwch wedi bodoli yn Belfast ers i'r Fyddin Brydeinig ddod i dramwyo'r strydoedd.

Ydi'r syniad o Linell Heddwch wedi gweithio?


Yn ogystal â bod yn arwydd weledol, a gredwch chi fod a wnelo rhwystrau fel hyn fwy â'r ffordd yr ydym yn meddwl?

Codwyd y Llinell Heddwch i geisio llesteirio peth ar wrthdaro sectyddol, ac mae'n rhannu'r gymuned ar sail hunaniaeth grefyddol. Nid yw'r syniad yn un newydd. Gwahanwyd Belfast gyda baricadau yn ystod y Dauddegau a'r Tridegau. Digwyddodd yr un peth ar raddfa llawer mwy yn ninas Berlin wedi'r Ail Ryfel Byd, ac ar ynys Cyprus rhwng y Groegwyr a'r Twrciaid. A heddiw mae Israel yn codi mur i gadw'r Palestinaid draw.

Fyddech chi o'r farn fod llinellau heddwch fel hyn yn wrthgynhyrchiol i ddatrys gwrthdaro?

Gweithgaredd

- Rhannwch y dosbarth yn ddau, un rhan i drafod problemau ochr Shankill Road o'r llinell heddwch a'r llall i drafod problemau ochr y Protestaniaid o'r llinell heddwch (gweler tud. 37 a 38). Pa broblemau sydd yn debyg? Pa rai sy'n annhebyg?
- Lluniwch fur gwrthdaro trwy dynnu llun mawr o fur o friciau. Gofynnwch i'r disgyblion i ysgrifennu enwau'r problemau arny'n nhw. Yna crëwch forthwylion o bapur ac ysgrifennu arnynt yr atebion i'r problemau hyn – y morthwylion a all dynnu'r mur i lawr. **



Heblaw problemau llinell Heddwch Belfast, gall eich mur hefyd adlewyrchu problemau cyfredol eraill megis y mur enfawr y mae'r Israeiiaid yn ei godi i gadw'r Palestiniaid i mewn. Fe all hefyd fod yn ffordd i drafod problemau lleol lle mae tyndra er enghraifft rhwng gwahanol ardaloedd dinesig yng Nghymru, neu rhwng y ddinas a chefn gwlad. Tynnwch sylw'r dosbarth at y ffaith fod Offa, brenin Mercia, wedi codi Clawdd i gadw'r Cymry a'r Saeson ar wahan!

[** seiliwyd y gweithgaredd uchod ar un yn "Bydweithio!". Mae llawer o weithgareddau tebyg yn y pecyn hwn ar gyfer ABCh a Dinasyddiaeth Fyd-eangCA3&4. Mae "Bydweithio!" yn Gymraeg ar ffurf PDF ar wefannau Cymorth Cristnogol. Oxfam, Cafod, Action Aid ac Achub y Plant.]

Effaith gwrthdaro ar yr amgylchedd yn Ninas Belfast

Yn ogystal â'r pris a dalwyd mewn dioddefaint dynol, mae Belfast wedi gorfod talu pris drud yn amgylchyddol oherwydd y rhyfel. Mewn cyfweiliad ar raglen radio, soniodd yr aelod seneddol lleol, Gerry Adams, sut y tynnwyd cymuned sefydlog Falls Rd. a'r Shankland i lawr er mwyn gwneud lle i'r Divis Flats. Fflatiau uchel oedd y rhain a godwyd yn y Saithdegau, ond a arweiniodd at ragor o broblemau, ac yn y diwedd bu'r gymdeithas denantiaid lleol yn ymgyrchu gydag un nod yn unig - tynnu'r fflatiau i lawr. Cafodd Gorllewin y ddinas ei ehangu at y llain gwyrdd. Drwy ganol y ddinas, cafwyd canlyniad i losgi tai Falls Road ac adeiladwyd traffordd fawr y 'West Link'.

Dyma'r math o ddatblygiadau sy'n digwydd mewn unrhyw dref fawr, ond yn Belfast, nid canlyniadau'r trafferthion yw hyn, ond yr achos. Mae'r datblygiadau yn Belfast wedi bod yn ganlyniad polisiau bwriadol gan Lywodraeth Prydain. Gallai pobl gyffredin o'r ddwy ochr yn Belfast ddod at ei gilydd, ond yr hyn sy'n eu gwahanu yw'r hyn a adwaenir fel y 'Llinell Heddwch'. Soniodd Gerry Adams am 'counter insurgency architecture' - stadau tai wedi eu codi gyda'r bwriad o reoli trigolion. Mewn sawl stâd, ceir un ffordd i mewn, ac un ffordd allan - i'w gwneud yn haws cadw rheolaeth ar bobl. O ganlyniad, nid oes gan dai ar y stadau hyn ddim gerddi a dim cyfleusterau chwarae i blant. Maent wedi eu cynllunio yn wael.

Nodwedd arall o Belfast yw'r tyrrau uchel sy'n perthyn i'r heddlu. Yn union o flaen drysau ffrynt rhai pobl, y mae wal 30 troedfedd Swyddfa Heddlu. Ers Awst 1994, y buddsoddiad unigol mwyaf yw tŵr i'r Fyddin ger Ballymurphy a gostiodd tua £15 miliwn o bunnau. Fe'i codwyd er mwyn sbio ar bobl a chael golwg tu mewn i'w cartrefi.

Yr ochr arall yn y Shankill, yr un yw'r stori. Cytunai un o'r trigolion, Margaret Holland fod peth gwelliant wedi bod. Lle'r oedd slymiau, mae rhai gwelliannau araf. Mae tai newydd, mae pwyllgor tai, mae pobl yn dechrau bod eisiau dod yma i fyw. "Ers talwm, roedd pobl o'r ddwy ochr yn byw gyda'i gilydd, ond tynnwyd y tai i lawr ac fe'n rhannwyd. Dyna oedd yr unig ffordd i gael heddwch. Efallai daw y Llinell Heddwch i lawr rhyw ddydd."

Dywedodd tenant arall fod dirywiad economaidd wedi bod gyda llawer o'r hen ddiwydiannau wedi mynd - melinau, defnyddiau, adeiladu llongau. Yn y blynyddoedd diwethaf, caewyd 2 brif gyflogwr - Pobty a ffatri. Nid yw'r problemau wedi mynd ymaith, ac mae ymosodiadau sectyddol yn dal i ddigwydd.

Gyda'r draffordd, mae'n arbed munudau i geir, ond bu'n bris uchel i bobl leol ei dalu. Rhyw fath o fur ydi'r draffordd hefyd.

Ger y draffordd, caiff ffenestri eu torri bob noson. Ni ellir gadael plant allan i chwarae. Yr unig ateb, yn ôl un, oedd cuddio'r ffenestri fel nad oedd y bobl ar un ochr yn gweld yr ochr arall. Dyna oedd realti anodd byw ar y Llinell Heddwch.

Yr oedd Gerry Adams am weld y Llinell Heddwch yn cael ei thynnu i lawr. Yr hyn sydd ei angen yw trin Belfast fel un uned, ac nid datrys problemau'r gorllewin, neu broblemau gogledd y ddinas ar wahân.

Effaith gwrthdaro ar yr amgylchedd yn Ninas Belfast

Yn Mount Vernon (a adwaenir gan rai fel Mount Vermin) mae ardal Deyrngarol lle mae cerrig y pafin wedi eu peintio yn goch, gwyn a glas. Mae na Grŵp Amgylchedd bywiog wedi ei leoli yno. Mae'r paent am gael ei lanhau, mae gwelliannau am gael eu gwneud, ac mae pawb yn bleidiol i'r cynlluniau hyn. Ar un o'r waliau, mae murlun, 'Prepared for Peace, Ready for War'. Bydd hwnnw'n cael ei lanhau hefyd.

Yr hyn mae Belfast yn ei wneud i chi sylweddoli yw fod 'yr amgylchedd' yn ymwneud ag amodau cyffredin bywyd bob dydd. Yn ardal Genedlaetholaidd Ballymurphy, mae Paddy McBride yn gyn-garcharor sydd ar hyn o bryd yn gweithio gyda grŵp o bobl ifanc, yr Upper Springfield Development Trust. Mae tua saith gant o gyn-garcharorion yn ceisio adeiladu bywyd iddynt eu hunain. Nid oes gan y rhan fwyaf waith, ond mae hynny'n gyffredin. Mewn rhannau o Belfast, mae un o bob pedwar yn ddiwaith. Yn aml iawn, nid yw eu tadau wedi gweithio na'u teidiau. Dywedodd Paddy McBride nad oedd gan y Prydeinwyr hawl i fod yn Iwerddon. Wrth gwrs fod ganddo lawer yn gyffredin gyda'r dosbarth gweithiol Protestanaidd, ond fe orchfygir y problemau wedi cael sofraniaeth i Iwerddon. "Os pery'r uniad gyda Phrydain, mae'r Cenedlaetholwyr am barhau i fod ar yr ymylon, dydyn ni byth am gael dylanwadu ar y penderfyniadau." Mae na gyd-weithio rhwng y ddwy ochr yn dechrau digwydd.

Nid oes ateb hawdd a rhad i broblemau Belfast. Meddai un, "Rydw i eisiau gweld cymuned ar yr ynys hon lle mae pobl yn cael eu trin yn gyfartal. Mae cyfartaledd gwleidyddol yn ddi-ystyr oni bai eich bod yn cael cyfartaledd economaidd yn ogystal. Mae pobl yn haeddu cael eu trin yn iawn, a pheidio cael eu hecsploetio. Mae ffordd bell i fynd."

Sonir am ddiwedd y trafferthion, ond megis cychwyn mae pobl Belfast. Maent yn cychwyn ar ffordd ail-adeiladu i ganfod cydraddoldeb a chyfiawnder.

Yn Stewart Town Road, mae prosiect mentrus wedi cychwyn. Cafodd pobl ar y ddwy ochr eu cyfweld ar wahan am flwyddyn, gan drafod materion oedd yn gyffredin iddynt. Ymhen y flwyddyn, roeddent yn barod i gyfarfod ei gilydd wyneb yn wyneb, a chafwyd cynhadledd undydd mewn gwesty. Y flaenoriaeth oedd lefel uchel diweithdra. Nodwyd hyn fel y cam cyntaf mewn prosiect ad-fywhau. Dewiswyd safle niwtral i adeiladu siopau a swyddfeydd, ac yr oedd un prosiect ar y cyd rhwng Unoliaethwyr a Chenedlaetholwyr. Fe gymrodd 12 mis iddynt ddod wyneb yn wyneb, ac yr oedd yn gam mawr. Yr oedd pobl yn nerfus, ac ni wyddent beth i feddwl ar y cychwyn. Roedd arnynt ofn gan na wyddent beth fyddai'n datblygu o'r prosiect. Ond fe fentrodd sawl un, ac yn awr, y mae'r ofnau'n cilio. Mae mwy a mwy yn dod yn rhan o'r prosiect a sylweddoli nad oes dim i'w ofni. Dyma un o ganlyniadau y broses heddwch. Dywedodd un nad oedd ots beth oedd yn digwydd yn Stormont, oni bai fod y gymuned leol yn sylwi ar newidiadau real o'u cwmpas.

Ar draws y Llinell Heddwch yn Belfast

Beth sy'n ddiddorol am fywyd bob ochr i'r Llinell Heddwch yw mor debyg y mae.

- Gan amlaf mae'r amodau byw yn debyg
- Mae'r boblogaeth yn mynychu lle o addoliad
- Mae yna anwybodaeth am ddiwylliant yr ochr arall
- Amharodwydd i gymysgu
- Teimlad o ofn am y gymynged arall
- Mae bandiau pibau ac acordeon yn chwarae rhan bwysig yn y diwylliant cerddorol
- Mae'r ddwy gymuned yn gorymdeithio ac yn dathlu dyddiadau hanesyddol
- Mae'r graffiti poblogaidd yn defnyddio'r un fformat
- Mae grwpiau parafilwrol yn rheoli

Ystyriwch y dyfyniad canlynol:

"Datblygiad yw gair arall am heddwch" - Julius Nyerere, un o arweinwyr mawr cyfandir Affrica.

Gwrthdaro mewn cyd-destun rhyngwladol

Astudiaeth - Dwyrain Timor

Y mae'r sefyllfa yn Nwyrain Timor yn enghraifft o wrthdaro lle yr oedd mwy nag un wlad wedi ei thynnu i mewn i'r anghydfod.

Diben y gweithgaredd hwn yw:

- cyflwyno digon o wybodaeth i uniaethu gydag achosion ac effeithiau'r gwrthdaro
- deall yr oblygiadau rhyngwladol

Mae'r gweithgaredd hwn ar ffurf ymchwil i erthygl bapur newydd ar Timor. Rhoddir tri phwnc i'r myfyrwyr iddynt wneud ymchwil arnynt. Daw'r wybodaeth o wahanol ffynonellau. Rhoddir gwybodaeth gefndir am y wlad iddynt yn ogystal.



Map Dwyrain Timor - <http://www.oxfam.org.uk/atwork/where/asia/easttimor.htm>

Cam 1.

Rhannwch y dosbarth yn dri grŵp. Mae pob grŵp yn cynrychioli papur newydd. Gall y myfyrwyr ddewis enw i'w papur.

Mae'r myfyrwyr yn rhan o dîm o newyddiadurwyr sydd yn casglu gwybodaeth i ysgrifennu erthygl am y gwrthdaro ddigwyddodd yn Nwyrain Timor ym 1999.

Rhoddwch y wybodaeth gefndir sydd ar y dudalen nesaf i'r myfyrwyr. Rhaid i bob tîm addysgu eu hunain. Gellir canfod gwybodaeth pellach ar safle we

- Oxfam - www.oxfamgb.org/eastasia/etimor/index.html
- Cafod - www.cafod.org.uk/asia/etimor_intro.shtml
- Cynhedloedd Unedig (UN) - www.undp.east-timor.org/

Cam 2.

Mae'r tîm yn ymrannu i weithio gydag adroddiadau o ffynonellau eraill i weithio ar bwnc penodol. Yna, daw pob newyddiadurwr yn ôl at eu papur eu hunain i rannu'r hyn a ganfyddwyd.


Dyma'r tri mater y maent yn ymchwilio iddynt

- ymddygiad milwyr Indonesia yn Nwyrain Timor
- agwedd y bobl gyffredin
- ymateb pobl ledled y byd i'r digwyddiadau yn Nwyrain Timor

Rhowch beth deunydd am y pwnc ymchwil i bob pâr. Maent i drafod y cynnwys gyda newyddiadurwyr eraill.

Cam 3.

Dylent ddychwelyd i'w papur eu hunain, rhannu'r wybodaeth ac ysgrifennu'r erthygl am Ddwyrain Timor. Yn olaf, gallent brintio ac arddangos eu herthyglau.



Os ydych am fwy o wybodaeth darllenwch rai o erthyglau John Pilger am Ddwyrain Timor ar ei safle wê - pilger.carlton.com/timor

DWYRAIN TIMOR - gwybodaeth am y wlad

Gwlad yn Ne-ddwyrain Asia yw Dwyrain Timor, pedwar can milltir i'r gogledd o Awstralia. Fel Nicaragua, trefedigaeth oedd Dwyrain Timor hithau, ond trefedigaeth o Bortiwgal. Dyna pam mai Portiwgaeg yw prif iaith y wlad hyd heddiw. Catholigion yw crefydd canran uchel o'r boblogaeth. Ym 1975, yr oedd y broses o ddatgymalu oddi wrth Lywodraeth Portiwgal yn digwydd, ond nid oedd y wlad fawr gerllaw, Indonesia, am weld Timor annibynnol. Ar Ragfyr 7ed, 1975, goresgynwyd Dwyrain Timor gan filwyr o Indonesia, a chipwyd y brifddinas, Dili. Am y chwarter canrif nesaf, roedd y wlad fechan hon am ddiodef erchylltra tu hwnt i bob dychymyg.

O ran poblogaeth, mae tua 600,000 yn byw yno. Yn ystod y chwarter canrif ddiwethaf, lladdwyd 200,000 - traean o boblogaeth y wlad. Yn ogystal â lladd y bobl, llosgwyd ysgolion, ysbytai ac eglwysi. Digwyddodd un o'r ymosodiadau gwaethaf ym 1991, mewn mynwent yn Dili lle lladdwyd bron i dri chant o brotestwyr mewn diwrnod.

Yr unben yn Indonesia ar y pryd oedd yr Arlywydd Suharto. I ganiatau yr hlladdiad yn Nhimor, dibynnai Suharto ar gael cyflenwad o arfau o wledydd y gorllewin. Awyrennau Americaniadd a ddefnyddiwyd i fomio Timor gyntaf, ac yr oeddent yn allweddol i'r gorsegyniad. Pan oedd y gorthrwm ar ei ffyrnigaf, gwelwyd awyrennau Hawk yn ymosod ar bentrefi Dwyrain Timor. Gwnaed yr awyrennau hyn ym Mhrydain, fe'u gwerthwyd gan Lywodraeth Prydain, a hyfforddwyd peilotiaid Indonesia i'w hedfan ym maes awyr Y Fali ar Ynys Môn.

Dechreuodd pethau newid ym 1997 - 1998 pan ddigwyddodd argyfwng ariannol difrifol yn Indonesia. Er i'r IMF* geisio helpu, disgynnodd Indonesia o fod yn un o'r gwledydd cyfoethocaf yn y Trydydd Byd i wlad lle roedd can miliwn o bobl yn byw dan y lefel tlodi. Erbyn 1998, yr oedd pobl Indonesia yn peri terfysg o fewn y wlad a gorfodwyd Suharto i ymddiswyddo. Fe'i olynwyd gan yr Arlywydd Habibi.

Cytunodd Portiwgal ac Indonesia i ganiatáu refferendwm ar annibynniaeth i Dwyrain Timor ym 1999, dan arolygaeth y Cenhedloedd Unedig. Digwyddodd y refferendwm ddiwedd Awst a phleidleisiodd mwyafrif helaeth Dwyrain Timor dros annibynniaeth. Mewn un ymgais olaf i ddial, lladdwyd llawer o bobl Timor gan filwyr Indonesia wrth iddynt adael y wlad.

* *International Monetary Fund*

Gwrthdaro a phrotest

Oherwydd gormes Indonesia yn Nwyrain Timor, ffurfiwyd sawl mudiad mewn sawl gwlad i godi llais dros Timor, Campaign Against Arms Trade (CAAT), Tapol - yr ymgyrch dros Hawliau Dynol yn Indonesia, a Grwpiau Cefnogi Dwyrain Timor. Yr oedd eglwysi yn groch iawn yn eu beirniadaeth yn ogystal. Un o'r grwpiau oedd yn ymgyrchu oedd grŵp y 'Ploughshares'. Grŵp oedd y rhain a gymerai eu hysbrydoliaeth o'r adnod yn y Beibl, 'a thorrant eu cleddyfau yn sychau' (Micha 4.3)

Ym 1996, aeth pedair gwraig o grŵp 'Ploughshares' i wersyll RAF ac achosi difrod i awyren Hawk gyda morthwylion. Fe'u cadwyd yn y carchar tan yr achos llys. Yn Llys y Goron Lerpwl, dyfarnodd y rheithgor eu bod yn ddi-euog o drosedd **gan fod hawl gan bobl i gyflawni trosedd pe byddai yn atal trosedd mwy rhag digwydd**. Gydag offer cyffredin megis morthwylion, yr oeddent wedi difrodi awyren ryfel er mwyn atal difrod mwy difrifol rhag digwydd.

Cafodd yr achos gyhoeddusrwydd mawr, gan ddangos fod modd i bobl gyffredin weithredu i dynnu sylw at anghyfiawnder oedd yn digwydd yn y pen arall o'r byd. Drwy eu gweithred hefyd, yr oeddynt yn dangos nad oeddem yn y gorllewin yn gallu golchi ein dwylo o wrthdaro mewn gwledydd eraill. Drwy'r fasnach arfau, yr oedd Prydain yn chwarae rhan allweddol yn y mater o ormesu Dwyrain Timor.



Mae gân Huw Jones gân sydd yn mynegi'r ffaith hon mewn modd trawiadol.

*'Ond pwy sy'n fwy cyfrifol am y
gwaed a'r tristwch hwn,
Yr un sy'n gwerthu'r arfau, neu yr un
sy'n tanio'r gwn?'*



Gwrandewch hefyd ar gân y grŵp 'Plethyn' - **Gwaed ar eu Dwylo**

Mae y cwestiwn o werthu arfau yn fater llosg iawn. Dadleuir yn aml fod cynhyrchu arfau yn creu swyddi sydd yn fawr eu hangen, ond mae'n wir fod modd i wlad wneud elw mawr pan yn gwerthu arfau. Wrth ddod i rym, dywedodd Robin Cook, y Gweinidog Materion Tramor ar y pryd, fod Llafur am fabwysiadu polisi tramor moesol; eto mae Prydain wedi parhau i werthu arfau i Indonesia, Zimbabwe a sawl gwlad arall sydd yn eu defnyddio i ormesu pobl.

Gweithgaredd

Gellir rhannu hanner y dosbarth yn dri grŵp bach.

Os dymunwch, yn lle Timor, Indonesia a Phrydain gellwch ddefnyddio enwau gwledydd dychmygol. Gofynnwch i bob grŵp ffurfio papur byr yn egluro eu safbwynt, a gallant gyflwyno eu safbwyntiau i'r dosbarth tra'n rhannu'r un llwyfan.

Mae hanner arall y dosbarth yn gwrando ar y dadleuon hyn ac yn chwarae swyddogaeth y **Cenhedloedd Unedig**. Gyda chynnig ger eu bron o ganiatau refferendwm i Grŵp A - **sut fyddent hwy yn pleidleisio?**

A. Mae'r grŵp cyntaf yn cynrychioli gwlad tan warchae - **Timor**. Maent yn wlad fechan sydd wedi bod yn drefedigaeth o Bortiwgal ers canrifoedd. Y cyfan y maent yn ei hawlio yw annibynniaeth i reoli eu bywyd eu hun.

B. Mae'r ail grŵp yn cynrychioli y wlad sydd wedi goresgyn - **Indonesia**. Mae ganddi ofn gwlad annibynnol yn rhy agos, ac mae ganddi ddiddordeb arbennig yn y cyflenwad o olew sydd dan dir Timor.

C. Mae'r trydydd grŵp yn wlad orllewinol - **Prydain**, sydd â diddordeb yn Indonesia fel gwlad sydd yn gwsmer arbennig o dda yn y fasnach arfau. Er yn gallu cydymdeimlo â thynged Timor, nid yw'n wleidyddol ddoeth iddynt feirniadu llywodraeth un o'u cwsmeriaid gorau. Gall llawer o swyddi Prydeinig fod yn y fantol.

Gan gadw'r grwpiau A, B, ac C, rhowch swyddogaethau eraill iddynt.



<http://www.raf.mod.uk/equipment/hawk.html>
- Hawk o RAF Fali

Mae'r tri grŵp yn dod wyneb yn wyneb wrth giatiau RAF Fali. Gellid gofyn i'r dosbarth ffurfio dramodig fechan o amgylch y gwahanol safbwyntiau a fynegir.

Gofynnir i weddill y dosbarth ysgrifennu adroddiad papur newydd ar y digwyddiad.

Grŵp C bellach yw'r grŵp o ffoaduriaid o Ddwyrain Timor sydd wedi cael lloches ym Mhrydain. Ni allant ddychwelyd i'w gwlad, ond maent yn ceisio gwneud yr hyn a allant i godi ymwybyddiaeth pobl am Timor.

Grŵp B yw grŵp o brotestwyr o Gymry sy'n ymgyrchu yn erbyn RAF y Fali ac yn cyhuddo'r gweithwyr yno o fod â gwaed ar eu dwylo. Drwy hyfforddi peilotiaid o Indonesia, y maent yn gyfrifol yn anuniongyrchol am yr hil-laddiad yn Nwyrain Timor.

Grŵp A yw'r gweithwyr yng ngwersyll yr RAF. Maent yn cyfaddef na wyddant lawer am y sefyllfa ryngwladol, ac na ellir eu beio hwy am y defnydd a wna cwsmeriaid gwledydd eraill o awyrennau Hawk. Hyfforddi peilotiaid yw eu gwaith hwy, a'u bywoliaeth. Rhaid iddynt ennill eu bara menyn, a phe na baent hwy yn gwneud y gwaith, byddai rhywun arall yn ei wneud yn eu lle. Mae gwaith yn anodd i'w gael y ddyddiau hyn.